




## Tymor yr Haf 2020 – Taflen 2 (Uned 5 a 6)

Dyma syniadau am amrywiaeth o dasgau i chi eu cwblhau adref dros y **3 wythnos nesaf (tan Mai 22ain)**. Fel yn flaenorol, mae croeso i chi gyflwyno eich tasgau mewn unrhyw ffordd. Mwynhewch ddysgu gan ddatblygu eich sgiliau creadigol a gweithio'n annibynnol. Mae croeso i chi drydar lluniau ohonoch chi ar waith gan ddefnyddio **@ysgolydderwen**.

<p><b>Celfyddydau Mynegiannol</b></p> <p>Mae'r prifardd Tudur Dylan Jones wedi ysgrifennu cerdd hyfryd 'Enfys yn y ffenest' sydd wedi cael ei rhannu yn HWB. Ysgrifennwch y gerdd mewn llawysgrifen daclus ac yna addurno'r gwaith mewn modd lliwgar ac effeithiol.</p> 	<p><b>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</b></p> <p>Agorodd yr Ardd Fotaneg ugain mlynedd yn ôl. Agorodd ar Fai 24ain, 2020. Crëwch daflen wybodaeth i ddathlu'r pen-blwydd.</p> 	<p><b>Iechyd a Lles</b></p> <p>Beth am ddilyn esiampl Capten Tom Moore gan osod sialens i wneud rhywbeth corfforol 100 gwaith dros gyfnod penodol o amser?</p> <p>Tynnwch luniau a'u rhannu ar drydar neu'n HWB.</p> 	<p><b>Mathemateg a Rhifedd</b></p> <p>Ceisiwch ddatrys y pos wythnosol sydd yn cael ei rannu yn J2e a Google Classrooms.</p> <p>Parhewch i ymarfer eich sgiliau llusgi a rhannu gan ddefnyddio J2Blast a'r profion sydd wedi cael eu rhannu.</p> 
<p><b>Dyniaethau</b></p> <p>Yn ystod mis Ramadan mae Mwslimiaid yn ymrydio fel un o'r Pum Piler Islam. Dechreuodd Ramadan Ebrill 23ain. Ceisiwch gasglu gwybodaeth am Ramadan a darganfod sut mae Covid-19 cael effaith ar y digwyddiad arferol.</p> 	<p><b>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</b></p> <p><b>Neges Heddwch ac Ewyllys Da – Mai 18fed eleni yw 'Stopio'r Cloc ac Ailddechrau' Cynlluniwch boster i</b> hyrwyddo'r neges gan gyfrif cyfarchion syml mewn ieithoedd amrywiol.</p> 	<p><b>Iechyd a Lles</b></p> <p>Ymchwiliwch i ddechreuad yr NHS. Mae yna gyswllt Cymreig pwysig iawn. Ewch ati i greu taflen wybodaeth gan gynnwys ffeithiau priodol.</p>  	<p><b>Mathemateg a Rhifedd</b></p> <p>Lliwiau'r Urdd yw gwyn, coch a gwyrdd. Sawl ffordd sydd o liwio logo'r Urdd gan ddefnyddio'r 3 lliw?</p>  <p>Wrth ychwanegu melyn a phedwaredd haen i'r logo, sawl ffordd sydd o liwio'r logo gan ddefnyddio'r 4 lliw?</p> 
<p><b>Dyniaethau</b></p> <p>Wythnos Cymorth Cristnogol: Mai 10 – 16</p>  <p>Torrwch allan siâp ffrwythau neu flodau o bapur ac ysgrifennu neu dynnu llun dymuniadau neu weddi ar y siâp.</p>	<p><b>Language, Literacy and Communication</b></p> <p>Click on the link of the PDF file in 'Ffeiliau wedi'u rhannu' about Captain Tom. Read the information and complete letter writing Challenge 1.</p> 	<p><b>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</b></p> <p>Ymchwiliwch i enwau blodau gwylt / blodau'r ardd.</p> <p>Syniad da byddai nodi'r enwau yn y Gymraeg, Saesneg ac yn Lladin (os yn bosib). Gwefannau i'ch helpu: Plantlife / Woodland Trust.</p> <p><b>Mae taflenni wedi cael eu rhannu yn HWB /Google Classroom.</b></p> 	<p><b>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</b></p> <p><b>Darluniwch flodyn ac yna labelwch holl rannau'r blodyn. Mae lluniau / geirfa i'ch helpu wedi cael eu rhannu yn HWB a Google Classroom.</b></p> 